



Sut allwn ni fyw'n gynaliadwy?

Amser yr awgrymir ar gyfer y gweithgaredd: 15 i 30 munud

Lleoliad Dan do neu yn yr awyr agored

Cyd-destyn

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar y nifer o ffyrdd y gallwn fyw'n gynaliadwy ac mae'n annog dysgwyr i drafod ac ystyried sut y gallant fyw mewn ffordd fwy gynaliadwy.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

Cwricwlwm i Gymru:

Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Y Dyniaethau	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.	Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.	Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Deall pam ei bod yn bwysig byw'n gynaliadwy.
- Egluro beth maen nhw'n gallu ei wneud i fyw'n gynaliadwy.
- Disgrifio pa ffyrdd o fyw'n gynaliadwy sydd bwysicaf iddyn nhw.

Offer ac adnoddau a awgrymir

- [Cardiau adnoddau - Sut allwn ni fyw'n gynaliadwy?](#)



Gwybodaeth gefndirol

Gall y gweithgaredd hwn fod yn ffordd dda o gyflwyno neu gadarnhau gwybodaeth am gynaliadwyedd, gan sbarduno dealltwriaeth dysgwyr am y nifer o wahanol ffyrdd y gallwn fyw'n gynaliadwy.

Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

- Gallech ofyn cwestiynau i gefnogi eich dysgwyr i egluro beth mae cynaliadwyedd yn ei olygu.
- Gallai eich dysgwyr ddefnyddio rhai neu bob un o'r [Cardiau adnoddau - Sut allwn ni fyw'n gynaliadwy?](#) sydd ar gael i archwilio rhai o'r ffyrdd amrywiol y gallwn fyw'n gynaliadwy.
- Gallech chi alluogi trafodaeth ynglŷn â pham mae byw'n gynaliadwy yn bwysig a thrafod eu syniadau. Nid oes atebion cywir nac anghywir. Gallai eich dysgwyr ddefnyddio'r cardiau adnoddau i lywio eu trafodaeth.
- A all eich dysgwyr benderfynu a threfnu'r cardiau adnoddau yn ôl y pethau pwysicaf a'r lleiaf pwysig iddyn nhw o ran byw'n gynaliadwy? Gallent roi'r setiau o gardiau mewn trefn ddiemwnt neu ddewis cerdyn yr un a threfnu eu hunain mewn llinell. Gallai dysgwyr weithio'n annibynnol, neu mewn grwpiau.
- A yw eich dysgwyr yn gallu cymharu a gwerthuso'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau barn ar y ffyrdd maen nhw'n teimlo sydd bwysicaf a lleiaf pwysig o fyw'n gynaliadwy?
- Mae'r cardiau adnoddau hefyd yn addas ar gyfer helpu dysgwyr i ystyried pa gamau y gallant eu cymryd eu hunain a beth na allant ei wneud. Pa gamau y gallant eu cymryd i annog cyflawni cynaliadwyedd yn eu lleoliad addysg, gartref, neu yn eu cymuned leol?
- Gallai eich dysgwyr ddewis un cerdyn o'r set sy'n bwysig iddyn nhw ac esbonio pam.
- A all eich dysgwyr nodi unrhyw ffyrdd y byddant yn ceisio byw'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol?

Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Sut gallwn ni fyw yn gynaliadwy?
- Pam ei bod hi'n bwysig byw'n gynaliadwy?
- Pa gamau allwch chi eu cymryd nawr?
- Sut gallwch chi newid i fod yn fwy cynaliadwy?

Awgrymiadau ar gyfer addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Lleihau nifer y cardiau yn y set.
- Gallai dysgwyr feddwl am wahanol ffyrdd y gallant fyw'n gynaliadwy a llunio eu cardiau eu hunain.

Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd dilynol/estyniad

A allai eich dysgwyr greu siartiau a graffiau i ddangos sut y cafodd y cardiau eu didoli?

- Ceisiwch wneud siart bar dynol. Gosodwch y cardiau ar lawr a gofynnwch i'r dysgwyr sefyll o flaen eu cerdyn dewisol mewn llinellau syth i wneud y 'bariau'.
- Gallai eich dysgwyr greu gwaith celf naturiol i ddangos ffyrdd o fod yn gynaliadwy.
- Sut gallai eich dysgwyr annog eraill i fyw'n gynaliadwy? A allent greu cynllun gweithredu neu ddylunio poster efallai?



Adnoddau eraill a awgrymir

- Mae ein tudalen Ynni gwyrdd yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, gweithgareddau ac adnoddau cysylltiedig.

Efallai yr hoffech chi hefyd gymryd golwg ar ein hadnoddau eraill:

- [Cynllun gweithgaredd - Gêm geirfa cynaliadwyedd](#)
- [Cynllun gweithgaredd - Y cylch rheoli coetiroedd yn gynaliadwy](#)
- [Cynllun gweithgaredd - Sut i gyfrifo'ch ôl troed carbon](#)

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.
Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiol.cymru.gov.uk, **0300 065 3000**

